# CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Llandysul, ar 12fed Mehefin 2017**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Llandysul Youth Centre, on 12th June 2017**

**Yn Bresennol/Present**:
Cyng/Cllrs Eileen Curry, Douglas Davies, Keith Evans, Andrew Howell, Gethin Jones, Abby Reid a Chyng Sir/County Cllr Peter Davies

1. **Ymddiheuriadau/Apologies** Cafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Aled Jones, Tom Cowcher, Llŷr Jones /Apologies for absence was received from Cllrs Aled Jones, Tom Cowcher, Llyr Jones.
2. **Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest** Datgelwyd budd gan Gyng Gethin Jones mewn perthynas â chais am rodd gan Sioe Llandysul / Declerations of interest were shown by Cllr Gethin Jones with regards to a request for donation from Llandysul Show.
3. **Cofnodion/Minutes** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 8 Mai 2017 yn gywir ar ôl newid enw Keith Davies i Keith Evans yng nghofnod 1 yn y golofn Gymraeg / Minutes of monthly meeting held on 8th May 2017 was accepted as correct following changing the name of Keith Davies to Keith Evans minute 1 in the Welsh column.
4. **Personol/Personal** Cafwyd munud o dawelwch er cof am y cyn Gynghorydd Terry Griffiths, a fu farw yn ddiweddar. Penderfynwyd y byddai'r cyngor yn rhoi £50 tuag at Apêl y Pabi er cof amdano / A minute silence was shown to former Councillor Terry Griffiths following his recent death. It was decided that the council donate £50 towards the Poppy Appeal in remembrance.

## YMWELIAD / VISIT

Roedd cynrychiolwyr o grŵp Plant y Dyffryn yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn hysbysu'r aelodau o'u cynlluniau ar gyfer safle Ysgol Dyffryn Teifi a'u cais am grant gan y loteri. Cafwyd esboniad manwl ganddynt am eu cynlluniau dros y tymor hir. Roedd Siân Williams o Aberteifi yn bresennol yn y cyfarfod hefyd er mwyn esbonio'r hyn y maen nhw wedi'i wneud yn Aberteifi wrth ail-fuddsoddi. Mae cefnogaeth y gymuned yn hollol hanfodol er mwyn i'r fenter lwyddo.

Roedd y Cynghorwyr yn dymuno'n dda iddynt gyda'r fenter.

Representation from Plant y Dyffryn was present at the meeting informing the members of what their plans are for Dyffryn Teifi School and their forthcoming lottery grant application. They gave a detailed explanation of what their long term plans are. Sian Williams from Cardigan was also present at the meeting explaining what they had done in Cardigan in re- investing. Local support is totally vital in order for the venture to succeed.

Councillors wished them well with the venture.

**PCSO**

Roedd Melanie Davies a Hannah Evans, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, yn bresennol yn y cyfarfod.
Hysbysodd y Cyngor eu bod yn gobeithio sefydlu cynllun gwylio cyflymdra ym Mhont-siân. Esboniodd hefyd bod yr Heddlu yn trefnu digwyddiad 2 ddiwrnod a fyddai'n targedu goryrru, defnyddio ffonau symudol, yfed a gyrru ac yfed dan ddylanwad cyffuriau, a threthu cerbydau. Gofynnwyd iddi a fyddai modd ychwanegu pentref Pren-gwyn i'r digwyddiad.
Hysbyswyd y Cyngor hefyd o'r ffaith bod difrod troseddol wedi cael ei achosi yn y parc chwarae ar ystad y Ffawydd. Roedd 2 unigolyn wedi cael eu dal ond oherwydd eu hoedran, nid oedd y Cyngor Sir yn dymuno mynd â'r mater ymhellach.
Cyhoeddwyd gwarant gyffuriau yn Llandysul a bydd 2 o bobl yn cael eu dwyn gerbron y llys.
Esboniodd Cyng Abby Reid bod poteli wedi cael eu darganfod yn y Parc ar ystad y Ffawydd.
Hysbyswyd y Cyngor hefyd o'r ffaith bod mewnfudwr anghyfreithlon wedi cyrraedd Llandysul ond ei fod wedi cael ei allgludo erbyn hyn.
Gofynnodd Cyng Keith Evans a oedd ganddynt unrhyw rym i ddarganfod a oes treth ar y ceir sydd wedi cael eu parcio ym maes parcio y Cyngor Cymuned. Byddant yn adrodd yn ôl yn ystod y cyfarfod nesaf.

Melanie Davies and Hannah Evans PCSO's were present at the meeting.
She informed the Council that they were hopping to set up a speedwatch in Ponsian. She also explained that the Police were organising a 2 day event targeting speed, mobile phone usage, drunk and drug driving and vehicle taxation. She was asked if Prengwyn village could be added to the event.
They informed the Council also that criminal damage had happened to the children's playpark in the Beeches. 2 suspects had been caught but due to their age there would be no criminal prosecution.
Criminal damage to Dyffryn Teifi School – 2 suspects had been identified but again due to their age the County Council did not want to take the matter further.
Drugs warrant had been issued in Llandysul 2 people to be taken to court.
Cllr Abby Reid explained that bottles had been found in the Park in the Beeches.
They also informed the Council that an illegal immigrant had turned up in Llandysul but had since been deported.
Cllr Keith Evans asked if they had any power to find out if the cars parked in the Community Council's carpark had been taxed. They would report back at the next meeting.

4 **Materion yn Codi**:-

**Papur Triawd y Cardi**
Hysbyswyd y Cyngor gan Gyng Gethin Jones bod y papur wedi cael ei gyhoeddi a'i fod yn ddiddorol iawn.

**Ceirw**
Esboniodd Cyng Peter Davies bod 2 garw arall wedi cael eu saethu. Roedd canlyniad prawf TB y 2 gyntaf yn negyddol, sy'n newyddion da i'r Gymuned. Roedd yn aros am ymateb o hyd a fyddai'n esbonio pwy sy'n gyfrifol am gael gwared o'r ceirw o'r Gymuned.

**Parc**
Esboniodd Cyng Keith Evans ei fod wedi cael gwared ar y graffiti oddi ar yr hysbysfwrdd yn y parc. Esboniodd Cyng Abby Reid bod rhywfaint o graffiti ar y si-so. Roedd yr offer chwarae wedi cael ei drwsio.

**Hysbysfwrdd ym Mhont-siân**
Hysbyswyd y Cyngor gan Gyng Gethin Jones bod Hysbysfwrdd Pont-siân wedi cael ei osod y tu allan i'r Neuadd erbyn hyn.

**Grant Thornton**
Hysbysodd y clerc y Cyngor bod y Datganiad Blynyddol wedi cael ei ddychwelyd i Grant Thornton erbyn 12 Mehefin. Roedd y clerc yn dymuno diolch i Gyng Aled Jones am ei holl waith caled wrth gynorthwyo i lenwi'r Datganiad Blynyddol.

**Materion y mae angen gwneud Penderfyniad amdanynt**

4) **Ceisiadau Ariannol**:-
**Sioe Pren-gwyn** Cafwyd cais am rodd er mwyn helpu i dalu'r gost o gynnal y Sioe.
Penderfynwyd rhoi £300
**Sioe Llandysul** Gofynnwyd am £500 er mwyn helpu i dalu'r gost o gael Pabell Celf a Chrefft. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano.
5) **Materion i'w trafod**

**Sedd Wag Llandysul**

4 **Matters Arising**:-

**Papur Triawd y Cardi**
Cllr Gethin Jones informed the Council that the paper had been published and was very interesting.

**Deer**
Cllr Peter Davies explained that another 2 deer had been shot. The first 2 had tested negative to TB which is good news to the Community. He was still awaiting a response to who’s responsible for getting rid of the deer from the Community.

**Park**
Cllr Keith Evans explained that he had got rid of the graffiti off the display board in the park. Cllr Abby Reid explained that there were some graffiti on the children’s see saw. The play equipment had been fixed.

**Notice Board in Pontsian**
Cllr Gethin Jones informed the Council that the Noticeboard in Pontsian was now in place outside the Hall.

**Grant Thornton**
The clerk informed the Council that the Annual Return had been returned to Grant Thornton by the 12 June. The clerk wished to thank Cllr Aled Jones for all his hard work in assisting completing the Annual Return.

**Matters Requiring Decisions**

4) **Funding Applications**:-
**Prengwyn Show**A request for donation was asked to help with the cost of hosting the Show. It was decided to donate £300
**Llandysul Show**£500 was requested to help with the cost of having an Arts and Crafts Tent. It was decided to donate the requested amount.
5) **Matters for discussion**

**Llandysul Vacancy**

Notice was received from the County Council

Cafwyd hysbysiad gan Gyngor Sir Ceredigion ynghylch y seddi gwag ar y Cyngor, 2 yn Llandysul ac 1 ym Mhont-siân. Penderfynwyd y dylai'r clerc ychwanegu ein bod yn dymuno cael llythyr yn mynegi diddordeb ac y dylid ei ddosbarthu i'r aelodau i'w ddangos yn yr Hysbysfyrddau yn y Gymuned. Dylid dychwelyd hysbysiad ynghylch diddordeb erbyn y cyfarfod nesaf.

**Cyfryngau Cymdeithasol**

Yn dilyn trafodaeth hir, penderfynwyd mai hon yw'r ffordd ymlaen i'r Cyngor er mwyn hysbysu'r cyhoedd o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud. Cyn gwneud penderfyniad terfynol, penderfynwyd y bydd Cyng Abby Reid yn creu tudalen brawf ar Facebook er mwyn ei dangos i'r Cynghorwyr erbyn y cyfarfod nesaf.

**Materion Wardiau**

**Pont-siân** Cafwyd llythyr yn mynegi pryder mawr ynghylch ffordd C1075 o Cwrt i Bont-siân. Penderfynwyd y dylai'r clerc anfon y llythyr ymlaen i'r Cyngor Sir, gan esbonio hyn mewn ymateb i'r llythyr.
Esboniodd Cyng Peter Davies bod ceirw gwyllt wedi cael eu gweld yng Nghoed Llanfair. Anogodd pobl i fod yn ofalus pan fyddant yn defnyddio llwybrau troed cyhoeddus.

**Llandysul** Esboniodd Cyng Keith Evans bod y golau yn Stryd y Ffynnon ymlaen yn ystod y dydd a'r nos. Bydd y clerc yn hysbysu Adran Goleuadau Stryd y Cyngor Sir.

O ganlyniad i'r difrod troseddol a achoswyd i barc y Ffawydd, esboniodd Cyng Abby Reid bod Tai Ceredigion wedi hysbysu'r preswylwyr na fyddent yn ei drwsio. Penderfynwyd y dylai'r clerc ysgrifennu at Dai Ceredigion gan esbonio pa mor werthfawr yw'r cyfleuster hwn i'r preswylwyr.

Mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw ar y llwybr troed newydd o Heol Llynyfran tuag at yr ysgol newydd. Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir.

due to the vacant posts on the Council, 2 in Llandysul and 1 in Pontsian. It was decided that the clerk add that we wanted a letter of interest and to be distributed to members to display in the Noticeboards in the Community. Notice on interest to be returned by next meeting.

**Social Media**

Following a lengthy discussion it was decided that this was the way ahead for the Council to inform the public of what the Council does. Before a final decision is reached it was decided that Cllr Abby Reid create a dummy page on Facebook to show to Councillors by the next meeting.

**Ward Matters**

**Pontsian** A letter was received showing great concern regarding the road C1075 from Cwrt to Pontsian. It was decided that the clerk forward the letter to the County Council and reply to the letter explaining this.
Cllr Peter Davies explained that wild deer had been spotted in Llanfair Woods. He urged people to be careful when using public footpaths.

**Llandysul** Cllr Keith Evans explained that the light on Well Street is on day and night. The clerk to inform the County Council Street Lighting Department.

Cllr Abby Reid explained that due to the criminal damage to the park on the Beeches that Tai Ceredigion had informed residents that they would not going to fix it. It was decided that the clerk write to Tai Ceredigion explaining how valuable it is to the residents.

The new footpath from Llynyfran Road towards the new school is in need of maintenance. It was decided that the clerk contact the County Council.
6) **Acknowledge receipt of donation**

Theatr Troedyrhiw - £100
Canolfan Ddwr

6) **Cydnabod derbyn rhodd**

Theatr Troedyrhiw - £100
Canolfan Ddŵr

**Gohebiaeth**
Negeseuon e-bost – Cyflwynwyd rhestr o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerc ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 10 Ebrill a 12 Mehefin 2017.
Cafwyd y canlynol gan

**Geredigion** – Cafwyd Hysbysiad am yr Wythnos Gofalwyr ac fe'i nodwyd.
**ULlC/SLCC/ Clerks and Councils Direct** – Cafwyd Cylchgrawn The Clerk a Clerk and Councils Direct.
Cafwyd ffurflen aelodaeth flynyddol **Croeso i Gerddwyr**. Gan bod Llandysul yn cynnal gŵyl gerdded, penderfynwyd ymuno ac ysgrifennwyd siec am y swm o £40.
**Ffocws ar Chwarae** – Cafwyd cylchlythyr.
**AON** – Cafwyd ffurflen yn gofyn am ddyfynbris yswiriant.

---

(Gadawodd Cyng Peter Davies y cyfarfod)

**7 Cynllunio**:

Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad a gynhelir ar 14.06.17.

Cefnogwyd y cynlluniau canlynol gan y Cyngor Cymuned, ac ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau iddynt:-

A170393 – Llain 1 Cwrt y Castell Teifi, Teras y Porth, Llandysul

8) Gwybodaeth Ariannol

**Anfonebau:**-

Llinos Jones – Cafwyd anfoneb am y swm o £173.65 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Mai 2017 a derbyniwyd y dylid ei thalu.

**Correspondence**
Emails –A list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 10th April– 12th June 2017 was tabled.
The following were received from

**Ceredigion** – Notice of Carers Week was received and noted.
**OVW/SLCC/ Clerks and Councils Direct** – The Clerk Magazine and Clerk and Councils Direct was received.
**Walkers are Welcome** Annual membership form was received for Walkers are Welcome. As Llandysul hosts a walking festival it was decided to join and a cheque was written for £40.
**Focus on Play** – Newletter was received.
**AON** – A request form for an insurance quotation was received.

---

(Cllr Peter Davies left the meeting)

**7 Planning**:

Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 14.06.17 was received.

The following plans were supported by the Community Council and there were no objections:-

A170393 – Plot 1 Cwrt y Castell Teifi, Porth Terrace, Llandysul

8) Financial Information

**Invoices:**-

Llinos Jones – Invoice for May 2017 translation for £173.65 was received and passed for payment.

.;